

Nodiadau Canllaw ar gyfer Ffurflen Apelio Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Pryd i ddefnyddio'r ffurflen hon

Gallwch ddefnyddio'r ffurflen hon i apelio i Dribiwnlys Prasio Cymru (TPC) yn erbyn faint o Dreth Gyngor y mae'n rhaid i chi ei thalu am y rhesymau a restrir isod:

- Rydych yn credu, o dan reolau'r Cynllun Gostyngiadau Treth Gyngor lleol, y dylai'r Cyngor fod wedi rhoi gostyngiad i chi ar y dreth gyngor y mae'n rhaid i chi ei thalu.
- Dydych chi ddim yn credu bod swm y gostyngiad y mae'r Cyngor wedi ei roi i chi o dan y Cynllun Gostyngiadau Treth Gyngor lleol yn gywir.

Ni allwch apelio i ni am y rheolau y mae'r Cyngor wedi eu rhoi yn eu Cynllun, dim ond am sut mae'r rheolau wedi cael eu cymhwyso yn eich achos chi.

Os ydych chi eisiau apelio yn erbyn eich atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor am unrhyw reswm arall, ffoniwch neu ysgrifennwch at Swyddfa Ranbarthol y Tribiwnlys gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a roddir ar ddiwedd y nodyn canllaw yma.

Sut i apelio a phryd

Cyn i chi fedru apelio i'r Tribiwnlys, mae'n rhaid eich bod wedi ysgrifennu at y Cyngor yn egluro'r hyn rydych yn anghytuno ag ef yn eu penderfyniad am eich gostyngiad treth gyngor. Dylai'r Cyngor fod wedi anfon ymateb atoch o fewn dau fis.

Os nad ydych yn fodlon ar ymateb y Cyngor gallwch apelio i ni. Os ydych chi eisiau apelio, mae'n rhaid i chi gysylltu â ni o fewn dau fis i ddyddiad ymateb y Cyngor. Os nad yw'r Cyngor wedi ymateb i chi o fewn dau fis, gallwch apelio i ni ar yr amod nad oes mwy na phedwar mis wedi mynd heibio ers i chi ysgrifennu ato yn y lle cyntaf.

Os ydych yn credu y gallech fod wedi colli'r terfynau amser hyn, cysylltwch â'r Tribiwnlys. Gellir derbyn apelïadau hwyr o dan rai amgylchiadau.

Geiriau a ddefnyddir ar y Ffurflen Apelio

Cyngor – weithiau yn cael ei alw'n 'Awdurdod Bilio'. Dyma'r corff sy'n darparu gwasanaethau lleol ac yn casglu'r dreth gyngor i dalu amdanynt. Gallwch ddod o hyd i enw'r Cyngor ar fil treth gyngor neu hysbysiadau eraill ganddynt.

Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor – weithiau yn cael ei alw'n 'Gymorth Treth Gyngor', mae'n cymryd lle Budd-dal y Dreth Gyngor a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013. Bydd Cynllun eich Cyngor yn gosod y rheolau lleol maent wedi eu llunio i benderfynu a ddylai person gael gostyngiad treth gyngor ac os felly, faint. Dylai eich Cyngor fedru rhoi gwybod i chi lle gallwch gael hyd i gopi o'i gynllun..

Cyfeirnod treth gyngor –mae hyn yn helpu'r Cyngor eich adnabod chi a'ch cais. Dewch o hyd i'r cyfeirnod ar eich bil treth gyngor neu'r llythyr penderfyniad gan y Cyngor.

Tribiwnlys Prisio – mae Tribiwnlys Prisio Cymru (TPC) yn gorff barnwrol annibynnol a sefydlwyd yn ôl y gyfraith i wrando ar apeliadau yn erbyn Ardrethi Annomestig, y Dreth Gyngor ac Ardrethi Draenio a'u pennu. Mae TPC yn gweithio o bedair Swyddfa Ranbarthol ar draws Cymru.

Mae TPC yn annibynnol ar y Cyngor/Awdurdod Bilio (AB) sy'n codi biliau'r dreth gyngor ac ardrethi, ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio, sy'n gosod bandiau'r dreth gyngor a gwerthoedd ardrethol.

Nodiadau i'ch helpu i lenwi'r ffurflen apelio

Adran 2 – Mae angen i'r Tribiwnlys wybod cyfeiriad yr eiddo rydych wedi hawlio gostyngiad treth gyngor amdano ac rydych am apelio amdano. Ticiwch 'le' os yw'ch cais yn ymwneud â'r dreth gyngor y mae'n rhaid i chi ei thalu ar gyfeiriad yr eiddo rydych chi wedi'i roi. Ticiwch 'Nage' os yw'r apêl yn ymwneud â chais am ostyngiad treth gyngor mewn cyfeiriad gwahanol ac ysgrifennwch y cyfeiriad hwnnw yn y blwch oddi dano.

Adran 3 – Mae yna derfynau amser ynglŷn â gwneud apêl. Mae angen i'r Tribiwnlys wybod y dyddiad yr ysgrifennoch chi at y Cyngor am ei benderfyniad, **nid** y dyddiad yr hawlio chi ostyngiad treth gyngor am y tro cyntaf.

Hefyd, mae angen i'r Tribiwnlys wybod y dyddiad yr ysgrifennodd y Cyngor yn ôl atoch chi'n dweud y gallech apelio i ni. Os nad yw'r Cyngor wedi ysgrifennu yn ôl ac mae mwy na dau fis wedi mynd ers y dyddiad yr ysgrifennoch chi atynt, ticiwch y blwch.

Os yw'r Cyngor wedi ysgrifennu yn ôl atoch, bydd angen i chi anfon copi o'i lythyr at y Tribiwnlys pan fyddwch yn anfon y ffurflen apelio yn ôl. Hefyd, os ydych wedi apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf am gyfrifiad eich Budd-dal Tai oherwydd yr un ffeithiau, dylech anfon copi o'r apêl yma gyda'r ffurflen apelio hefyd.

Adran 4 – Gofynnir i chi esbonio eich rhesymau am apelio. Cofiwch y cewch apelio am sut mae rheolau'r Cynllun Gostyngiadau Treth Gyngor lleol wedi cael eu defnyddio yn eich achos chi yn unig. **Ni chewch apelio i ni am y rheolau mae'r Cyngor wedi penderfynu eu gosod mewn lle yn ei Gynllun, dim ond am y rheolau sydd wedi cael eu defnyddio yn eich achos chi.**

Llofnod – Llofnodwch y ffurflen, os gwelwch yn dda, neu os ydych yn e-bostio, teipiwch eich enw.

Nid yw'r nodiadau hyn yn rhoi manylion llawn am y ddeddf. Gallwch ddod o hyd i fwy o fanylion ar wefan y Tribiwnlys:

www.valuation-tribunal-wales.org.uk

Os oes angen gwybodaeth neu gymorth pellach arnoch wrth gwblhau'r ffurflen, cysylltwch â Swyddfa Ranbarthol berthnasol y Tribiwnlys. Rhoddir manylion cyswllt y Swyddfeydd Rhanbarthol a rhestr o'r Cynghorau a gynhwysir ganddynt dros y dudalen.

CYSYLLTIADAU SWYDDFA I DPC

Rhanbarth Dwyrain Cymru

Tribiwnlys Priso Cymru
Rhanbarth Dwyrain Cymru
22 Gold Tops
CASNEWYDD
NP20 4PG
Ffôn: 01633 266367
Ffacs: 01633 253270
E-bost: VTWaleseast@vtw.gsi.gov.uk

Ardaloedd: Cyngorau/ABau

CS Powys
CBS Blaenau Gwent
CBS Caerffili
CS Sir Fynwy
Cyngor Dinas Casnewydd
CBS Torfaen

Rhanbarth Gogledd Cymru

Tribiwnlys Priso Cymru
Rhanbarth Gogledd Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth, Bloc A (L1)
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
Ffôn: 03000 625350
Ffacs: 03000 625368
E-bost: VTWalesnorth@vtw.gsi.gov.uk

Ardaloedd: Cyngorau/ABau

CBS Wrecsam
CS Sir y Fflint
CS Sir Ddinbych
CS Gwynedd
CS Ynys Môn
CBS Conwy

Rhanbarth De Cymru

Tribiwnlys Priso Cymru
Rhanbarth De Cymru
22 Gold Tops
Casnewydd
NP20 4PG
Ffôn: 01633 255003
Ffacs: 01633 255004
E-bost: VTWalesouth@vtw.gsi.gov.uk

Ardaloedd: Cyngorau/ABau

CBS Pen-y-Bont ar Ogwr
CD Caerdydd
CBS Rhondda Cynon Taf
CBS Bro Morgannwg
CBS Merthyr Tudful

Rhanbarth Gorllewin Cymru

Tribiwnlys Priso Cymru
Rhanbarth Gorllewin Cymru
Llys y Ddraig
Parc Busnes Penllergaer
Abertawe
SA4 9NX
Ffôn: 03000 254530
Ffacs: 03000 254522
E-bost: VTWaleswest@vtw.gsi.gov.uk

Ardaloedd: Cyngorau/ABau

CBS Castell-nedd-Port Talbot
Dinas a Sir Abertawe
CS Sir Gaerfyrddin (Rhan 3)
CS Sir Gaerfyrddin (Rhan 1 & 2)
CS Ceredigion
CS Sir Benfro